Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adolygiad o'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy’n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl

Ebrill 2018

Cm 9611

# Adolygiad o'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ebrill 2018

Cm 9611

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2018**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn paroleboardreview@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0358-4

CCS0418521662 04/18

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair | | 5 |
| 1. | Cyflwyniad | 6 |
| 2. | Cefndir | 7 |
| 3. | Tryloywder proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl | 8 |
| 4. | Ailystyried penderfyniadau parôl | 11 |
| 5. | Cyfraniad ac ymgysylltiad y dioddefwr | 12 |

# Rhagair

Rhaid cael cyfiawnder; a rhaid iddo gael ei weld. Mae cyfiawnder agored yn un o egwyddorion pwysig ein system gyfiawnder. Fodd bynnag, dan y gyfraith bresennol, mae polisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Parôl yn golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud y tu ôl i ddrysau caeedig ac yn y dirgel.

Mae hyder yn y broses parôl a'r system gyfiawnder ehangach yn dibynnu ar ei gallu i wasanaethu a diogelu'r cyhoedd. Mae penderfyniad y Bwrdd Parôl i roi cyfarwyddyd i ryddhau John Worboys yn amlwg wedi sigo'r hyder hwnnw ac wedi tynnu sylw at y broses parôl ei hun.

Ers ysgwyddo'r rôl hon, rwyf wedi dweud y byddwn yn gwneud y Bwrdd Parôl yn fwy tryloyw, y byddwn yn ceisio cyflwyno peirianwaith i adael i rai penderfyniadau am ryddhau gael eu hailystyried ac y byddwn yn gwella'r ffordd y mae dioddefwyr yn ymwneud â'r broses. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi adolygiad llawn o 27 Rheol y Bwrdd Parôl. Cyhoeddais fanylion yr Adolygiad hwn ar 9 Ionawr a heddiw rwy'n disgrifio'i gasgliadau a'r camau a fydd yn cael eu cymryd.

Yn gyntaf, byddwn yn mynd ati'n syth i wella tryloywder y broses parôl drwy ddiwygio Rheol 25 i dynnu'r gwaharddiad cyffredinol sy'n atal y Bwrdd Parôl rhag datgelu gwybodaeth am y ffordd mae'n gwneud ei benderfyniadau. Tra bo'r cam cychwynnol hwn yn unol â dyfarniad yr adolygiad barnwrol ar achos Worboys, rydym am gael mwy o dryloywder yn y system yn y dyfodol.

Yn ail, wrth adolygu gweithdrefnau'r Bwrdd Parôl, gwnaethom gytuno y dylid gallu ailystyried penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud am ryddhau mewn achosion sensitif iawn. Felly heddiw, rydym yn lansio ymgynghoriad ar system newydd a fydd yn caniatáu i benderfyniadau'r Bwrdd Parôl gael eu herio a'u hailystyried. Rydym yn rhagweld proses ailystyried dan arweiniad barnwr a allai fod yn agored i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ystyried sut y dylai'r system weithio a bydd ar agor tan ddiwedd Gorffennaf. Unwaith y bydd hwn wedi'i gwblhau, byddaf yn disgrifio fy nghynlluniau ar gyfer rhoi'r system newydd ar waith.

Yn drydydd, roedd yr Adolygiad hwn yn cynnwys deall profiad y dioddefwyr o broses y Bwrdd Parôl a sut i'w gwella. Rydym wedi gwrando ar ddioddefwyr ac rydym am wneud nifer o newidiadau i'r ffordd y maent yn derbyn gwybodaeth, gan ei wneud yn haws iddynt gyfrannu, yn ogystal ag ehangu mynediad i'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod yn gysylltiedig â chynnal yr Adolygiad hwn ac am eu hymdrechion i sicrhau bod yr adolygiad wedi bod yn gyflym, yn bendant ac a ffocws iddo. Yn benodol, hoffwn ddiolch i'r Comisiynydd Dioddefwyr am ei gwaith yn sicrhau bod llais a barn dioddefwyr wedi cael eu hystyried yn llawn.

Bydd yr adolygiad cynhwysfawr o'r Bwrdd Parôl llawn rwyf wedi gorchymyn ei gynnal yn arwain at fwy o ganfyddiadau a diwygiadau, fel y bydd ein Strategaeth Dioddefwyr yn ddiweddarach eleni. Mae'r pecyn mesurau cychwynnol hwn yn ymateb clir i'r problemau a gododd yn sgil achos Worboys, a dyfarniad dilynol yr Uchel Lys. Mae'n gam cyntaf pwysig ar gyfer sicrhau bod y broses parôl yn fwy agored, yn rhoi mwy o her a bod dioddefwyr yn rhan o'r broses a hefyd tuag at adfer hyder dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol mewn system gyfiawnder sy'n eu gwasanaethu a'u diogelu.

**Y Gwir Anrh. David Gauke AS**
**Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

# 1. Cyflwyniad

1. Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Adolygiad i'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl (yr Adolygiad). Roedd yr Adolygiad hwn yn ystyried tryloywder dull gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl; a ddylid cael peirianwaith a fydd yn rhoi modd i benderfyniadau parôl gael eu hailystyried; a chysylltiad y dioddefwyr â'r broses parôl a darparu gwybodaeth am y broses.

2. Mae'r Adolygiad wedi edrych ar broblemau gyda'r broses parôl drwyddi draw, ond fe ddeilliodd o geisiadau am fwy o dryloywder a phryderon sylweddol a godwyd yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Parôl i orchymyn rhyddhau John Worboys. Roedd hwn yn achos difrifol ac anghyffredin, ond, fe dynnodd sylw at y ffordd rydym yn cyfathrebu â dioddefwyr a'u hymwneud â'r broses parôl. Fe dynnodd sylw hefyd at y diffyg tryloywder mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl. Yn ogystal, roedd yn codi cwestiynau ynghylch a oes angen cael peirianwaith newydd a fydd yn rhoi modd i ailedrych ar benderfyniadau o'r fath.

3. Rhaid i ddioddefwyr, a'r cyhoedd, gael hyder yn y system cyfiawnder troseddol sydd yno i'w gwasanaethau. Mae'n anochel bod penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn rhai anodd - ond oherwydd hynny mae'n bwysicach byth fod gwybodaeth ar gael am y ffordd mae'r broses yn gweithio a hyder bod y system yn deg ac yn gadarn. Rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn cefnogi dioddefwyr wrth iddynt barhau i ddioddef effeithiau'r troseddau a gyflawnwyd yn eu herbyn a sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth gywir ac amserol am yr hyn sy'n digwydd yn eu hachos, a'r wybodaeth honno wedi'i darparu mewn ffordd ystyriol.

4. Mae'r Adolygiad hwn yn nodi'r camau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd yn wyneb y problemau syth a ddaeth yn amlwg yn sgil achos Worboys. Rydym yn:

   - tynnu'r gwaharddiad cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth am achosion y Bwrdd Parôl, gyda rhagdybiaeth y bydd dioddefwyr yn derbyn crynodebau o resymau'r Bwrdd Parôl am eu penderfyniadau,
   - lansio ymgynghoriad ar fanylion peirianwaith ailystyried newydd. Ein bwriad yw cael proses a fydd yn cael ei harwain gan farnwr, a fydd yn agored ac yn dryloyw, a'r gwrandawiadau'n agored i'r cyhoedd, ynghyd â bod yn dryloyw am aelodau'r panel sy'n gwneud penderfyniadau ailystyried, a
   - gwneud newidiadau'n syth i'r ffordd rydym yn cyfathrebu â dioddefwyr. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gall mwy o ddioddefwyr gael cynnig bod yn rhan o'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.

5. I wneud yn siŵr y gellir gweithredu unrhyw newidiadau'n gyflym ar gyfer achosion yn y dyfodol, mae'r Adolygiad hwn wedi bod yn ddarn gwaith cyflym ac â ffocws iddo. Mae'r Adolygiad wedi bod yn seiliedig ar farn dioddefwyr drwy waith dan arweiniad y Comisiynydd Dioddefwyr, rhai cyfweliadau â throseddwyr, yn ogystal â chysylltiad uniongyrchol â staff ac aelodau'r Bwrdd Parôl, gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth carchardai a phrawf, ac uwch arweinwyr. Mae crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymgysylltiad hwn wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder hefyd wedi comisiynu adolygiad cynhwysfawr o'r holl Reolau sy'n rheoli'r Bwrdd Parôl i sicrhau bod ei weithdrefnau'n darparu cyfiawnder.

## 2. Cefndir

7. Cafodd y Bwrdd Parôl ei sefydlu yn 1967 i gynghori'r Ysgrifennydd Cartref a oedd, bryd hynny, yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau carcharorion ar drwydded a'u galw'n ôl i'r carchar. Ers hynny, mae'r Bwrdd Parôl wedi esblygu, yn bennaf mewn ymateb i gyfraith achosion, o fod yn fwrdd cynghori i un sy'n annibynnol, ac â swyddogaeth led-farnwrol.

8. Sefydlwyd Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae'n Gorff Cyhoeddus Anadrannol (NDPB). Ei rôl yw diogelu'r cyhoedd drwy gynnal asesiadau risg i benderfynu a oes modd rhyddhau carcharorion yn ddiogel i'r gymuned. Wrth wneud hynny, mae'n gweithio gyda rhannau eraill o'r system Cyfiawnder Troseddol gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

9. Mae'r Bwrdd Parôl yn cyflawni tair prif swyddogaeth:

   a. Mae'n penderfynu a ddylid rhyddhau pob carcharor dan ddedfryd o gyfnod amhenodol a rhai carcharorion dan ddedfryd o gyfnod penodol, gan gymeradwyo amodau trwydded pan fydd yn gwneud hynny;

   b. Mae'n adolygu'r amgylchiadau lle mae pob carcharor dan ddedfryd amhenodol a rhai carcharorion dan ddedfryd benodol wedi cael eu galw yn ôl i'r carchar am aildroseddu neu am honiad eu bod wedi aildroseddu, neu am dorri amodau trwydded yn ystod cyfnod goruchwylio'r gwasanaeth prawf, ac yn penderfynu a ddylid ail-ryddhau'r carcharorion hyn. Mae'r swyddogaeth hon yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Parôl wneud canfyddiadau ffeithiol am amgylchiadau'r galw yn ôl, ac;

   c. Mae'n gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer trosglwyddo carcharorion dan ddedfryd o gyfnod amhenodol o garchar caeedig (diogelwch uchel neu ganolig) i garchar agored (diogelwch isel).

10. Ni all y Bwrdd Parôl wneud y canlynol:

    a. Gwneud asesiadau ynghylch a oedd y ddedfryd wreiddiol a roddwyd gan y llys yn addas a/neu yn briodol;

    b. Gwneud asesiad i ryddhau ar sail dim byd ond y risg sy'n gysylltiedig â'r troseddwr.

11. Mae'r swyddogaethau hyn yn seiliedig ar asesiadau o lefel risg carcharor i'r cyhoedd, a gyflawnir drwy ddull ymholi chwilysaidd.

12. Mae cyswllt â dioddefwyr mewn perthynas â'r broses parôl yn cael ei wneud drwy'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (VCS) sy'n cael ei redeg gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS). Mae'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn cael ei gynnig i ddioddefwyr a gyflawnwyd rhai troseddau treisgar a rhywiol penodol lle mae'r troseddwr wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy. Drwy'r gwasanaeth, mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn darparu gwybodaeth i ddioddefwyr cymwys am brif gamau dedfryd troseddwr gan gynnwys y broses parôl.

## 3. Tryloywder proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl

13. Mae rheolau presennol y Bwrdd Parôl, sy'n rheoli'r ffordd mae'r Bwrdd Parôl yn gweithredu, yn darparu gwaharddiad cyffredinol ar ryddhau gwybodaeth am achosion parôl ac enwau'r bobl sy'n gysylltiedig â'r achosion[1].

14. Yn ymarferol, mae'r darpariaethau hyn yn golygu na all y Bwrdd Parôl ddatgelu'n gyhoeddus unrhyw wybodaeth am y penderfyniadau maent yn eu gwneud a'r rhesymau am y penderfyniadau hynny. Mae penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn cael eu datgelu fel mater o drefn i'r rhai sydd wedi dioddef dan law'r troseddwr sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei ryddhau gan y Bwrdd Parôl os ydynt wedi cofrestru gyda'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (VCS), yn ogystal â chael gwybod am unrhyw amodau trwydded sy'n berthnasol i'r dioddefwr yn benodol. Ond, nid yw'r rhesymau dros y penderfyniad, na'r set lawn o amodau trwydded y mae'r Bwrdd Parôl yn eu hystyried yn ofynnol ar gyfer rheoli'r troseddwr ar ôl iddo gael ei ryddhau, yn cael eu datgelu i ddioddefwyr.

15. Mae'r rhagdybiaeth hon o beidio â datgelu yn deillio'n rhannol o sail hanesyddol y Bwrdd fel corff cynghori i Weinidogion - ni fyddai ei argymhellion yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, a chafodd y rhagdybiaeth hon o beidio â datgelu ei throsglwyddo wrth iddo newid i fod yn gorff annibynnol lled-farnwrol. Fodd bynnag, mae achos clir dros gyflwyno rhagor o dryloywder i'r broses a dadl argyhoeddiadol fod y gwaharddiad presennol ar ryddhau unrhyw wybodaeth yn mynd yn rhy bell. Hefyd, er mwyn gwella hyder y cyhoedd yng ngwaith y Bwrdd Parôl, mae'n bwysig hefyd bod gan bobl ddealltwriaeth gyffredinol am waith y Bwrdd Parôl a sut mae'n gwneud ei benderfyniadau i roi rhywfaint o gyd-destun.

16. Roedd yr Uchel Lys, mewn ymateb i'r achos a ddygwyd gan ddau o ddioddefwyr John Worboys ac eraill, hefyd yn cytuno â'r safbwynt hwn. Gwnaethant ddyfarnu bod y gwaharddiad cyffredinol presennol ar ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn anghyfreithlon, ac yn groes i egwyddorion cyfiawnder agored, gan ddatgan *“There is no objective necessity for a rule which stifles the provision of all information relating to the proceedings of the Parole Board.*”

17. Roedd yr Adolygiad felly'n ystyried y canlynol yn benodol:

- yr wybodaeth sydd ar gael am y system ei hun o ran sut mae'r broses parôl yn gweithio; a
- tryloywder gwaith gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl o ran penderfyniadau'r Bwrdd Parôl a'r rhesymau am y penderfyniadau hynny.

### Gwybodaeth sydd ar gael am y system parôl

18. Rhan bwysig o wella hyder y cyhoedd yn y system yw gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn deall rôl y Bwrdd Parôl, beth mae'n ei wneud a sut mae'n gwneud hynny. Oherwydd y symudiad tuag at fwy o dryloywder ynghylch penderfyniadau'r Bwrdd Parôl, mae'n hanfodol bod gwybodaeth glir, hygyrch a pherthnasol ar gael i'r cyhoedd fel bo ei benderfyniadau'n cael eu deall yng nghyd-destun pwrpas y Bwrdd Parôl a'r broses parôl.

[1] Rheolau'r Bwrdd Parôl 2016, Rheol 25 - http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/1041/article/25/made

19. Mae gwybodaeth ar gael am y Bwrdd Parôl, gan gynnwys ei rôl yn y system cyfiawnder troseddol a sut mae'n gwneud ei benderfyniadau, ar GOV.UK, ond roedd yn amlwg wrth inni gysylltu â dioddefwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth neu ei amgyffred ac y gallai hyn gael ei wella.

20. O ganlyniad, byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Parôl i ddatblygu a gwella'r cynnwys presennol a strwythur yr wybodaeth am y Bwrdd Parôl a'i brosesau ar GOV.UK.

21. Efallai hefyd y bydd angen darparu gwybodaeth fwy manwl a mwy penodol ar gyfer rhai grwpiau. Felly, ar gyfer rhai grwpiau, fel Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a sefydliadau cyfryngau, bydd y Bwrdd Parôl yn datblygu rhaglenni allgymorth addysgol wedi'u targedu.

## Tryloywder penderfyniadau parôl

22. Ers dechrau'r Adolygiad hwn, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder bob amser yn glir y byddai angen cyrraedd trothwy uchel er mwyn cynnal gwaharddiad absoliwt ar ddarparu gwybodaeth am achosion parôl.

23. Trwy gydol ein hymgysylltiad yn ystod yr Adolygiad, roedd yn amlwg hefyd bod consensws eang y byddai gwella tryloywder yn gam cadarnhaol (ond gan gydnabod y risgiau cysylltiedig) ac mae'r Bwrdd Parôl ei hun wedi awgrymu hyn. Ond, cafodd pryderon eu lleisio mewn perthynas â dod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng tryloywder a phreifatrwydd y troseddwr, y dioddefwr ac ymarferwyr.

24. Yng ngoleuni'r egwyddor cyfiawnder agored, yr angen cyffredinol am dryloywder yn y system cyfiawnder troseddol a'r enghreifftiau o dryloywder mewn awdurdodaethau eraill, mae'r Adolygiad wedi dod i'r casgliad ei bod hi'n iawn fod mwy o wybodaeth am achosion parôl yn cael ei darparu.

25. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ein bod yn cael cydbwysedd rhwng tryloywder a'r angen i ddiogelu preifatrwydd fel y gall troseddwyr a thystion sy'n ymddangos gerbron y Bwrdd Parôl deimlo y gallant fod yn onest mewn gwrandawiadau er mwyn gallu cyfrannu'n briodol at broses asesu risg y Bwrdd Parôl. Heb y gonestrwydd hwn, mae'n bosibl na fydd asesiadau'r Bwrdd mor drylwyr. Mae'n bwysig hefyd nad yw gwybodaeth breifat am ddioddefwyr yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd. Yn yr un modd, mae pryderon wedi cael eu lleisio am ryddhau enwau aelodau'r panel ar achosion unigol heb fod digon o amddiffyniad ar gyfer eu diogelwch a'u deiliadaeth. Byddwn yn ystyried yr agwedd hon fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o Reolau'r Bwrdd Parôl.

26. Mae'r Adolygiad hwn wedi dod i'r casgliad y dylid defnyddio dull gweithredu safonol a fydd yn darparu mwy o dryloywder drwy ddiwygio'r Rheol 25 bresennol i ddarparu ar gyfer y canlynol:

    a. bod yn rhaid datgelu crynodeb o'r rhesymau dros benderfyniadau'r Bwrdd Parôl sy'n ymwneud â rhyddhau neu beidio â rhyddhau troseddwr i ddioddefwyr sy'n cyfrannu at y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (ac sydd am gael cyswllt), onid oes amgylchiadau eithriadol neu os nad yw'r dioddefwyr yn dymuno cael yr wybodaeth honno; a

    b. bod crynodeb o'r rhesymau dros benderfyniadau'r Bwrdd Parôl sy'n ymwneud â rhyddhau neu beidio â rhyddhau troseddwr yn gorfod cael ei greu a'i ddatgelu i bartïon eraill, sy'n gofyn amdano, os yw Cadeirydd y Bwrdd Parôl o'r farn y gellir cyfiawnhau datgelu dan egwyddor cyfiawnder agored.

27. Dyma'r cam cyntaf rydym yn ei gymryd tuag at wella tryloywder ac i gydymffurfio â dyfarniad y llys. Fodd bynnag, dim ond y cam cyntaf yw hyn, a bydd ystyried camau pellach i wella tryloywder yn rhan o'r gwaith ar reolau'r Bwrdd Parôl.

28. Bydd y Bwrdd Parôl yn gyfrifol am ddarparu rhesymau am ei benderfyniadau ac, fel corff annibynnol, lled-farnwrol, mae'n bwysig ei fod yn cael y rhyddid i benderfynu ar y ffordd orau o wneud hyn. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Parôl gydol yr Adolygiad, a byddwn yn eu cefnogi i roi'r newid hwn ar waith fel y bo'n briodol.

## 4. Ailystyried penderfyniadau parôl

29. Fel arfer, ar ôl i'r Bwrdd Parôl wneud penderfyniad, bydd y penderfyniad hwnnw'n derfynol ac ni all y Bwrdd ei hun ailedrych ar y penderfyniad. Felly, cael adolygiad barnwrol yw'r brif ffordd sydd ar gael i ailystyried penderfyniad y Bwrdd Parôl.

30. Mae cyfraith achosion yn darparu y gall y Bwrdd Parôl mewn amgylchiadau prin iawn ailystyried achos, er enghraifft pan mae'r Bwrdd Parôl wedi ystyried gwybodaeth am y troseddwr anghywir neu os oes newid sylfaenol wedi bod i'r cynlluniau ar gyfer rhyddhau troseddwr. Nid oedd y peirianwaith hwn ar gael yn achos Worboys, gan nad yw'n caniatáu ailgyfeirio ar bwyntiau cyfraith gyffredinol[2].

31. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylid gallu ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl mewn rhai amgylchiadau. Byddai hyn yn golygu bod pobl yn gallu mynegi pryderon am benderfyniad heb orfod cymryd y cam a allai fod yn feichus o lansio adolygiad barnwrol. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i'r Bwrdd Parôl ystyried penderfyniadau gwallus, ac ailgyflwyno achos gerbron y panel os bydd angen. Roedd llawer o bobl y daethom i gysylltiad â nhw yn cefnogi'r angen am system ailystyried cyn adolygiad barnwrol.

32. Ar ôl ystyried yn ofalus, mae'r Adolygiad wedi dod i'r casgliad y dylai system o'r fath fod yn rhan o'r strwythurau presennol ac felly'n rhan o'r Bwrdd Parôl, ond bod angen iddi fod yn system ar wahân sy'n cael ei hamddiffyn yn briodol. Bydd modd wedyn gwneud penderfyniadau'n gyflym, a chreu newid arwyddocaol. Byddai'n rhaid pasio deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer adolygiad allanol a, chan weithio gyda'r Bwrdd Parôl, credwn y gallwn gyflwyno peirianwaith effeithiol o fewn y strwythurau presennol drwy wneud newidiadau i Reolau'r Bwrdd Parôl.

33. Rydym hefyd yn rhagweld y byddai'r system newydd o dan arweiniad barnwr, gyda gwrandawiadau a allai fod yn agored i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau (pan fydd gwrandawiad llafar yn cael ei gynnal) a gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am aelodau'r panel sy'n gwneud y penderfyniadau hynny.

34. O ystyried natur dechnegol system o'r fath, ei heffaith ar y system ehangach a'r diddordeb mawr ymysg y cyhoedd, rydym yn ymgynghori ar fanylion y system arfaethedig er mwyn llywio'r gwaith o'i datblygu. Mae'r ymgynghoriad llawn ar gael yn: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reconsideration-of-parole-board-decisions.

---

1. cafodd y seiliau dros ailgyfeirio eu sefydlu mewn cyfraith achoson drwy achos Robinson.

## 5. Cyfraniad ac ymgysylltiad y dioddefwr

35. Mae'r broses parôl, ac yn arbennig rhyddhau troseddwr, yn gallu achosi loes garw i ddioddefwyr. Dywedodd llawer o ddioddefwyr wrthym eu bod yn anfodlon â’u profiad o'r broses ac nad oeddynt yn siŵr ble i fynd i gael gwybodaeth.

36. I fynd i'r afael â’r pryderon hyn, byddwn yn darparu gwybodaeth well am hawliau dioddefwyr, byddwn yn gwella ansawdd y gwaith o gyfathrebu â dioddefwyr a byddwn yn gwneud y gwasanaeth sydd ar gael i ddioddefwyr yn fwy ymatebol i’w hanghenion.

37. Fel rhan o'r Adolygiad hwn, gwnaethom ystyried y canlynol:

    a. cymhwysedd dioddefwyr ar gyfer y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (VCS) ac a ddylai’r gwasanaeth gael ei gynnig i amrywiaeth ehangach o ddioddefwr nag ar hyn o bryd;

    b. a oes lle i wella hawliau dioddefwyr; a

    c. y ffordd orau o roi gwybodaeth glir i ddioddefwyr am y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr a rhoi mwy o gyfle i ddioddefwyr roi eu barn am y gwasanaeth y byddent yn hoffi’i dderbyn drwy’r Cynllun.

### Y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

38. Mae Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 yn creu rhai hawliau ar gyfer dioddefwyr troseddau rhywiol neu dreisgar lle cafodd y troseddwr ddedfryd o 12 mis neu fwy. Mae gan y dioddefwyr hyn hawl i dderbyn gwybodaeth am brif gamau dedfryd y troseddwr a hawl i gyflwyno sylwadau am amodau trwydded troseddwr os bydd yn cael ei ryddhau; mae ganddynt hefyd yr hawl i gael gwybodaeth am unrhyw amodau trwydded sy’n ymwneud â'r dioddefwr y bydd y Bwrdd Parôl yn eu rhoi. Hefyd, yn rhinwedd Cod y Dioddefwyr, mae ganddynt hawl i gyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr i'r Bwrdd Parôl parthed troseddwr y maent yn ystyried ei ryddhau. Mae Datganiad Personol y Dioddefwr yn rhoi cyfle i ddioddefwyr esbonio effaith y trosedd arnynt yn eu geiriau eu hunain.

39. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cyflwyno’r hawliau hyn drwy’r VCS, sy’n cynnwys timau rhanbarthol o Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr (VLOs) sy’n gyfrifol am reoli’r cyswllt â dioddefwyr. Mae dioddefwyr sy’n bodloni’r meini prawf statudol yn cael cynnig gwasanaeth y Cynllun hwn yn fuan ar ôl i'r ddedfryd gael ei rhoi.

40. Y tu hwnt i’w ddyletswyddau statudol, mae gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yr opsiwn o gynnig gwasanaeth y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i gategorïau eraill o ddioddefwr yn ôl eu disgresiwn. Mae'r amgylchiadau lle gallai hyn fod yn briodol yn cael eu disgrifio mewn canllawiau, sydd ar hyn o bryd yn dweud mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid cynnig cyswllt yn ôl disgresiwn. Rhaid ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun i sicrhau bod unrhyw gyswllt yn rhesymol ac yn gymesur.

41. Mae’r Comisiynydd Dioddefwyr wedi dweud bod y canllawiau presennol yn rhy gyfyngedig - ac rydym yn cytuno bod achos cryf dros gael dull mwy hyblyg, a fydd yn caniatáu i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr gynnig y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i amrywiaeth ehangach o ddioddefwyr lle bo hynny'n briodol.

42. Felly, byddwn yn adolygu'r canllawiau er mwyn datgan yn glir y dylid cynnig y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i ystod ehangach o ddioddefwyr. Bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys categorïau wedi'u diffinio'n glir o ddioddefwyr a ddylai gael cynnig y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, gan gynnwys dioddefwyr rhai troseddau nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu pennu mewn statud (fel troseddau traffig ffyrdd sydd wedi achosi anafiadau difrifol) a dioddefwyr mewn achosion lle mae gorchymyn wedi'i wneud i gyhuddiad difrifol barhau ar y ffeil.

43. Bydd y canllawiau newydd hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr gynnig gwybodaeth i gategorïau eraill o ddioddefwr gan ystyried proffil yr achos, yr effaith ar yr unigolyn a barn yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Bydd dioddefwyr sydd yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn ôl disgresiwn yn derbyn gwybodaeth am brif gamau dedfryd y troseddwr; mewn rhai amgylchiadau, bydd ganddynt yr opsiwn o gyflwyno sylwadau am amodau trwydded ac, mewn amgylchiadau eithriadol, efallai hefyd y cânt wneud Datganiad Personol y Dioddefwr.

44. Byddwn yn gwneud y canllawiau newydd yn haws eu defnyddio (ac yn fwy clir i ddioddefwyr a Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr) drwy ddisgrifio'r broses a fydd yn cael ei defnyddio i wneud y penderfyniadau hyn a rhoi enghreifftiau o amgylchiadau sy'n debygol o fod yn rhai eithriadol. Rydym yn gweithio ar y manylion gyda'r asiantaethau cyfiawnder troseddol ac yn gobeithio rhoi drafft i'r Comisiynydd maes o law.

## Hawliau dioddefwyr

45. Dywedodd y Comisiynydd bod angen i ni wneud rhagor i sicrhau bod dioddefwyr yn cael y rhesymau os bydd y Bwrdd Parôl yn newid neu'n gwrthod unrhyw amodau trwydded y maent wedi gofyn amdanynt. Mae'r ymarfer yn anghyson ar hyn o bryd - mae lefel y manyldeb a ddarperir gan baneli'r Bwrdd Parôl yn amrywio, a gellir colli manylion wrth i wybodaeth basio drwy'r system. Os nad yw cais dioddefwr am amod penodol yn cael ei fabwysiadu, rydym yn cytuno y dylai'r rhesymau am hyn gael eu nodi mewn ffordd mor glir ac mor gynhwysfawr â phosibl. Mae hyn yn bwysig os ydym i roi gwir ymdeimlad i ddioddefwyr bod rhywun yn gwrando arnynt. Rydym felly wedi gofyn i'r Bwrdd Parôl ystyried y ffordd orau o sicrhau bod paneli yn mynd ati'n gyson i ddarparu esboniadau clir, a byddwn ni yn gwella'r broses ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon â dioddefwyr drwy'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.

46. Mae'n amlwg bod disgwyliadau dioddefwyr yn amrywio am y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr a'i bwrpas yn y broses parôl. Roedd nifer o'r dioddefwyr a ymatebodd i holiadur y Comisiynydd yn teimlo nad oedd eu datganiadau profiad y dioddefwr yn cael eu hystyried.[3] Mae'r profiad o baratoi Datganiad Personol y Dioddefwr yn gallu achosi loes fawr i ddioddefwyr a gall hyn eu gadael yn teimlo'n rhwystredig ac yn siomedig â'r broses.

47. Mae Datganiad Personol y Dioddefwr yn rhoi cyfle i ddioddefwyr esbonio effaith y trosedd arnynt hwy ac ar eu teuluoedd yn eu geiriau eu hunain. Fodd bynnag, credwn fod achos dros ailedrych eto ar rôl Datganiad Personol y Dioddefwr a thros wneud yn siŵr fod pawb yn gwybod beth yw ei bwrpas.

48. Cafwyd awgrymiadau gan ddioddefwyr am ffyrdd eraill o wella Datganiad Personol y Dioddefwr, gan gynnwys newid y rheolau sy'n mynnu bod y Datganiad yn cael ei ddatgelu i'r troseddwr oherwydd bod hyn yn gallu atal dioddefwyr rhag cyflwyno Datganiad.

[3]Tua hanner y 53 o ddioddefwyr a wnaeth ateb y cwestiwn ar y mater hwn yn arolwg y Comisiynydd .

49. Rydym am ystyried y materion hyn yn fwy manwl. Efallai y byddai'n rhaid diwygio'r Cod Dioddefwyr i wneud newidiadau. Byddai angen i ni hefyd ystyried rôl Datganiad Personol y Dioddefwr mewn rhannau eraill o'r broses cyfiawnder troseddol. Felly, byddwn yn edrych ar y cwestiynau hyn am Ddatganiad Personol y Dioddefwr fel rhan o'n gwaith ehangach ar Strategaeth Dioddefwyr, y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu'i chyhoeddi yn ystod yr haf.

50. Rydym hefyd am ei gwneud yn haws i ddioddefwyr gyflwyno'u datganiadau mewn gwrandawiadau llafar. Nodwn y cais gan y Comisiynydd i ddioddefwyr gael "dewislen opsiynau" ar gyfer cyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr ac rydym yn benderfynol o wneud yn siŵr y bydd mwy o ddioddefwyr yn cael dewis cyflwyno'u datganiadau heb orfod mynychu'r carchar. Byddwn yn cynnal prosiect gyda'r Bwrdd Parôl i adolygu cyfleusterau cyswllt fideo er mwyn rhoi'r opsiwn i fwy o ddioddefwyr gyflwyno'u datganiad o bell.

## Gwella'r gwasanaeth a gynigir i ddioddefwyr

51. Byddwn yn gwneud cyfres o welliannau'n syth i'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn sgil safbwyntiau'r dioddefwyr a gasglwyd gan y Comisiynydd, ymchwiliad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i'r polisi a'r broses a ddilynwyd gan y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn achos Worboys, a gwybodaeth a gawsom gan ymarferwyr yn y system.

52. Fel y nododd y Comisiynydd, mae rôl y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn ganolog i gyflwyno'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn llwyddiannus. Rydym eisiau canolbwyntio ar wneud yn siŵr fod Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r systemau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn iawn.

53. Rydym yn datblygu rhaglen hyfforddiant newydd ar gyfer Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a fydd yn cynnwys elfen benodol ar ddeall profiad dioddefwyr. Darperir yr hyfforddiant gan sefydliad cefnogi dioddefwyr. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ategu gan ganllawiau gwell a phrosesau sicrhau ansawdd cadarn. Byddwn yn anelu at gasglu adborth dioddefwyr am y gwasanaeth gydol y broses a defnyddio'r wybodaeth hon i sbarduno gwelliannau mewn perfformiad.

54. Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr eu hunain wedi dweud bod rôl y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn gallu bod yn ddryslyd i asiantaethau eraill a dioddefwyr. Mae hyn wedyn yn gallu effeithio ar nifer y dioddefwyr sy'n cael eu cyfeirio at y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Felly, byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn arbennig Unedau Gofal i Dystion, i sicrhau bod gan y staff wybodaeth glir am y cynllun, eu bod yn deall y broses o gyfeirio dioddefwyr at y cynllun, a'u bod yn gallu adnabod ymgeiswyr addas ar gyfer cyswllt drwy ddisgresiwn.

55. Mae sawl mater sy'n ymwneud â chysylltiad dioddefwyr â'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yr ydym am roi sylw iddynt. Gall dioddefwyr ei chael yn anodd gwneud penderfyniadau gwybodus am gyfrannu at y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, yn rhannol oherwydd nad oes gwybodaeth hawdd cael ati am y cynllun, ond hefyd oherwydd bod y broses yn ei gwneud yn ofynnol i'r dioddefwr ymgysylltu'n rhagweithiol o'r cychwyn ac ar adeg efallai pan maent yn dal yn ofidus. Nid yw'n syndod bod rhai yn cael eu methu.

56. Mae dioddefwyr wedi dweud bod angen iddynt gael gwybodaeth drwy'r Cynllun mewn da bryd, fel bod ganddynt ddigon o amser i baratoi Datganiad Personol y Dioddefwr er enghraifft. Rydym yn gweithio i sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybodaeth a rhybudd am y gwrandawiad parôl mewn da bryd drwy wella'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth rhwng rheolwyr troseddwyr a Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr.

57. Byddwn hefyd yn gwella gweithrediad ymarferol y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr drwy:

a. wella'r cynnwys ar-lein am y Cynllun a'i fanteision fel ei bod yn hawdd i ddioddefwyr ddod o hyd i wybodaeth glir am y cynllun a sut i ymuno;

b. symleiddio prosesau, yn arbennig ar adeg cyfeirio. Rydym yn archwilio'r posibilrwydd o gael proses optio allan a byddwn o leiaf yn gwneud y broses optio i mewn yn haws.

c. gwneud yn siŵr fod dioddefwyr yn y broses yn derbyn gwybodaeth glir ar y cychwyn a bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyfleu mewn ffordd sensitif. Rydym wedi gwella'r templedi cyswllt-cychwynnol ac rydym am weld Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn bod yn fwy rhagweithiol yn cysylltu â dioddefwyr, a dilyn eu llythyrau â galwad ffôn a chyfarfod wyneb yn wyneb lle bo'n briodol;

d. sicrhau y cysylltir â dioddefwyr ar y cynllun mewn ffordd briodol ac amserol ac mewn modd sydd fwyaf hwylus iddynt hwy. Byddwn yn gofyn i ddioddefwyr ddweud ym mha ffordd y byddai'n well ganddynt i'r cynllun gysylltu â nhw, gan eu hannog i ddarparu amrywiaeth o fanylion cyswllt (fel cyfeiriad e-bost a rhif symudol), er mwyn lleihau'r perygl o golli cysylltiad oherwydd bod y dioddefwr wedi newid cyfeiriad;

e. uwchraddio'r system rheoli achosion a ddefnyddir gan Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr, gan ychwanegu nodweddion newydd i'w gwneud yn haws olrhain gohebiaeth â dioddefwyr ac ystyried ffyrdd o roi gwybod i ddioddefwyr bod gohebiaeth wedi'i hanfon er enghraifft, rhoi gwybod iddynt drwy neges destun bod e-bost neu lythyr ar ei ffordd atynt;

f. ystyried a allwn gysylltu'r system rheoli achosion â systemau gwybodaeth eraill o fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, fel bo Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn gallu cael diweddariadau awtomatig am y troseddwr, a

g. ei gwneud yn haws i ddioddefwyr optio i mewn yn ddiweddarach yn nedfryd y troseddwr, gan gydnabod y bydd llawer o ddioddefwyr adeg y dedfrydu ddim yn gwybod faint o wybodaeth y maent am ei chael yn y dyfodol.

58. Credwn y bydd y newidiadau hyn yn cyfuno i wella ansawdd y data sy'n cael ei gadw ac yn darparu systemau mwy soffistigedig ar gyfer cyfathrebu â dioddefwyr. Effaith gyffredinol hyn fydd gwella ymgysylltiad y dioddefwyr â'r Cynllun Cysylltu â Defnyddwyr.

59. Yn olaf, mae'r Comisiynydd yn gwneud pwynt mwy sylfaenol am ddiben y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, gan nodi y dylai wneud mwy i ddarparu ar gyfer anghenion cymorth ehangach dioddefwyr. Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod y Cynllun Cysylltu â Defnyddwyr yn cefnogi dioddefwyr wrth iddynt wella o effeithiau trosedd, ond ni chredwn ei fod yn ddoeth disgwyl i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ddarparu'r gefnogaeth hon (a all gynnwys cwnsela therapiwtig, er enghraifft) yn uniongyrchol, yn bennaf oherwydd mae'n gofyn am set sgiliau gwahanol iawn. Ein nod yn hytrach yw sicrhau bod Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn cael eu hyfforddi i ystyried safbwynt dioddefwyr, a'u hanghenion, a'u cyfeirio at wasanaethau priodol. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn drwy ein gwaith ar y Strategaeth Dioddefwyr.

60. Bydd angen i ni wella'r cydweithio rhwng asiantaethau a gwasanaethau cymorth os yw'r dull integredig hwn i weithio'n ddidrafferth. Gan gofio hyn, mae'r Comisiynydd wedi argymell treialu cydleoli Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a gwasanaethau cymorth. Credwn fod hyn yn syniad da. Rydym yn ymwybodol o sawl cynllun ar draws y wlad sydd eisoes yn treialu'r dull hwn ac rydym yn bwriadu cydweithio â rhai ohonynt i archwilio manteision y model.